# Llythrennedd Ariannol yn y Fframwaith ABCh

Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

**Strategaeth Genedlaethol Sgiliau Sylfaenol i Gymru**

Y strategaeth 'Geiriau'n Galw - Rhifau'n Cyfri' yw strategaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru i wella llythrennedd a rhifedd yng Nghymru. Dyma'r ail strategaeth sgiliau sylfaenol ar gyfer Cymru a chaiff ei darparu gan 'Sgiliau Sylfaenol Cymru'. Amcan cyffredinol y strategaeth yw codi ymwybyddiaeth, datblygu syniadau newydd a chryfhau'r gallu i fynd i'r afael â diffygion o ran sgiliau sylfaenol.

**Y Prosiect Llythrennedd Ariannol**

Nod allweddol y prosiect yw defnyddio Llythrennedd Ariannol fel cyd-destun ar gyfer gwella sgiliau llythrennedd a rhifedd pobl Cymru, yn ogystal â gwella Gallu Ariannol.

Mae Llythrennedd Ariannol yn gyd-destun sy'n berthnasol ac yn ystyrlon i bawb o bob oedran.

## Dyma'n diffiniad o Lythrennedd Ariannol ......

**'gallu defnyddio barn hyddysg i wneud penderfyniadau effeithiol o ran defnyddio arian a'i reoli.'**

*('Delivering Skills for Life', Yr Adran dros Addysg a Sgiliau)*

Fel rhan o'n gwaith o fewn ysgolion, rydym wedi bod yn gweithio gyda 'Cynnal' (gwasanaeth cynghori ar gyfer awdurdodau Gwynedd a Môn) er mwyn llunio adnodd Llythrennedd Ariannol i'w ddefnyddio o fewn y Fframwaith ABCh. Mae'r adnodd hwn ar gael ar ffurf CD ROM ac mae'n targedu dysgwyr sydd â sgiliau sylfaenol sy'n is na lefel 1, yng Nghyfnod Allweddol 4.

Rydym yn credu bod yr adnodd yn cynnig cyfle i ddatblygu sgiliau llythrennedd a rhifedd a sgiliau ariannol yr unigolion hynny fydd yn gadael byd addysg prif ffrwd maes o law ac sydd ar fin dechrau gweithio neu dderbyn addysg bellach.



Words Talk-Numbers Count
Geiriau'n Galw-Rhifau'n Cyfri

Sgiliau Sylfaenol Cymru
Basic Skills Cymru

## Yr Adnodd

Mae'r adnodd rhyngweithiol yn darparu pecyn hyblyg o ddeunydd dysgu ac addysgu. Mae'n cynnwys dwy sefyllfa real fel y'u gwelir drwy lygaid dau gymeriad sy'n 15 a 17 oed - bachgen 15 oed sy'n gweithio ar ddydd Sadwrn ac yn byw gyda'i deulu, a merch 17 oed sy'n gadael gofal ac sydd ar fin dechrau yn y coleg a dechrau swydd rhan-amser. Mae'r cwrs yn edrych ar nifer o wahanol sefyllfaoedd; e.e. agweddau tuag at arian a materion ariannol, sgiliau bancio sylfaenol, defnyddio cyfrif banc, cynilion a chredyd a byw ar gyllideb yr ydych chi wedi'i phennu. Caiff y themâu hyn eu harchwilio drwy astudiaethau achos rhyngweithiol sy'n berthnasol i dasgau a gweithgareddau penodol y mae'n bosibl y bydd rhai disgyblion o'r oed yma yn gorfod mynd i'r afael â hwy yn eu bywydau o ddydd i ddydd.




*'mae cysylltiad diamheuol rhwng yr angen am sgiliau sylfaenol digonol mewn rhifedd a llythrennedd a llythrennedd ariannol.'*

*'mae diffyg llythrennedd ariannol yn aml yn deillio o sgiliau sylfaenol gwael.'*

*'gellir darparu sgiliau sylfaenol a llythrennedd ariannol ochr yn ochr â'i gilydd.'*

*Dogfen gan y Grŵp Cynghori ar Lythrennedd Ariannol Oedolion (AdFLAG), a gyflwynwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol dros Addysg a Chyflogaeth ym mis Chwefror 2000*

Mae gan addysg llythrennedd ariannol le pwysig iawn yn y Fframwaith Addysg Bersonol a Chymdeithasol (ABCh) presennol ac yn y fframwaith arfaethedig ar gyfer y dyfodol.

Mae'r Fframwaith ABCh presennol yn ymdrin â'r 10 agwedd ar berson yn y gymdeithas y gellir eu datblygu o fewn cyd-destun yr ysgol. Mae Llythrennedd Ariannol yn dod o dan yr 'Agwedd Alwedigaethol' ...ar y Fframwaith, hy... 'Mae angen hefyd i'r disgyblion ddatblygu dealltwriaeth o rôl a phwysigrwydd arian. Mae angen iddynt ddeall eu rôl a'u cyfrifoldeb fel defnyddwyr, a meithrin 'llythrennedd' ariannol a'u galluoga i ffurfio barnau a phenderfyniadau economaidd effeithiol.'

Yn sgil yr adolygiad presennol o'r fframwaith ABCh, bydd fersiwn derfynol y fframwaith ar gael yng Ngwanwyn 2008, er mwyn ei gweithredu ym mis Medi 2008. Un o'r newidiadau mawr a wnaethpwyd i'r fframwaith yw'r ffaith ei fod bellach yn cynnwys disgyblion 16-19 oed.

Mae'r fframwaith newydd wedi'i ailstrwythuro i gynnwys 5 thema eang; Dinasyddiaeth Weithgar; Iechyd a Lles Emosiynol; Datblygiad Moesol ac Ysbrydol; Paratoi ar gyfer Dysgu Gydol Oes; Datblygu cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang.

Mae Llythrennedd Ariannol yn dod o dan y thema 'Paratoi ar gyfer Dysgu Gydol Oes', lle nodwyd y dylai'r adran hon gynnwys datblygu'r sgiliau rheoli personol a'r sgiliau ymarferol sylfaenol sydd eu hangen o ddydd i ddydd.

'Mae angen i ddysgwyr ddatblygu dealltwriaeth o rôl a phwysigrwydd arian hefyd. Mae angen cymorth arnynt i ddeall eu rôl a'u cyfrifoldebau fel defnyddwyr, a chymorth i feithrin gallu ariannol a fydd yn eu galluogi i ffurfio barn effeithiol a gwneud penderfyniadau effeithiol mewn perthynas â materion economaidd. Mae angen i ddysgwyr wybod y gwahaniaeth rhwng gwaith gyda thâl a gwaith heb dâl, a chydnabod pwysigrwydd caffael y sgiliau newydd hynny sy'n hanfodol mewn byd gwaith sy'n gystadleuol ac sy'n newid yn gyflym'.

Dylai dysgwyr yng Nghyfnod Allweddol 4 yn enwedig gael cyfle i wybod a deall:

- eu hawliau fel defnyddwyr a'u cyfrifoldebau o ran rheoli cyllideb
- pa mor bwysig yw cynllunio ar gyfer eu dyfodol ariannol a sut i gael cyngor ariannol.

Dylid sicrhau bod dysgwyr ôl-16 yn cael y cyfle i wybod a deall:

- bod eu hannibyniaeth yn cynyddu o ran rheoli arian personol a chael gafael ar gredyd.

**Cyfeiriad e-bost: bscnw@cymru.gsi.gov.uk**

D5380809